



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

Diben: Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLI 473

Amseru: Arferol

Teitl: Ail estyniad ar gyfer Cydlynnydd Ymchwil Plismona sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cydweithio / staffio

Crynodeb Gweithredol:

Dogfennodd penderfyniad DLI 372 3 Rhagfyr 2025 gydsyniad CHTh i estyn y rôl Cydlynnydd Ymchwil Plismona sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth am 12 mis i 4 Chwefror 2027. Roedd hyn er mwyn estyn y rôl i ddarparu cymorth penodol i weithgarwch gwerthuso prosiect HDP a datblygiad 'Canolfan Arloesedd' newydd, gan sicrhau cysylltiad â'r byd academiaidd a'r defnydd o blismona sy'n seiliedig ar dystiolaeth lle mae hynny'n bosibl. Mae'r daliwr swydd wedi parhau mewn swydd dros dro o fewn SCHTh ar gyfer goruchwyliaeth barhaus CHTh a rheoli llwyth gwaith o ddydd i ddydd.

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi cydnabod effaith yr estyniad o ran cyflenwi nifer o werthusiadau mewnol o brosiectau Adolygiad yr Heddlu. Maen nhw'n bwriadu ceisio gwneud y swydd yn un barhaol. Mae'r Prif Gwnstabl wedi gofyn i'r Comisiynydd estyn cyflogaeth y daliwr swydd presennol i 31 Mawrth 2028 i alluogi'r Heddlu i gynnwys y rôl yn ei sefydliad drwy'r Cylch Cynllunio Strategol a Sicrwydd a chynnal proses recriwtio lawn heb aflonyddu dim ar y gwaith sy'n cael ei gyflawni.

Argymhelliad:

Bod CHTh yn estyn y trefniadau presennol ar gyfer rôl Cydlynnydd Ymchwil Plismona sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth i 31 Mawrth 2028.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus. Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod:



Dyddiad:

24.9.2026